O F F E R Y N N A U S T A T U D O L
C Y M R U

2012 Rhif 2767 (Cy. 295)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

Gorchymyn Cefnffordd yr A483 (Pencerrig, Ger Llanelwedd, Powys) (Gwahardd Cerbydau Llydan Dros Dro) 2012

Gwnaed	*2 Tachwedd 2012*
Yn dod i rym	*12 Tachwedd 2012*

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darn perthnasol o Gefnffordd Abertawe – Manceinion (yr A483) (y cyfeirir ati yma wedi hyn fel "y gefnffordd"), wedi eu bodloni y dylid cyfyngu ar draffig a'i wahardd ar ddarn penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith y gwneir arno.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984**(1)** a phob pŵer galluogi arall, yn gwneud y Gorchymyn hwn**(2)**.

Enwi, Dehongli a Chychwyn

1. Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 12 Tachwedd 2012. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffordd yr A483 (Pencerrig, Ger Llanelwedd, Powys) (Gwahardd Cerbydau Llydan Dros Dro) 2012.

2. —(1) Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr "cerbyd esempt" (*"exempted vehicle"*) yw unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio gan y gwasanaethau brys neu ar gyfer y gwaith sy'n arwain at y Gorchymyn hwn;

ystyr "cyfnod y gwaith" (*"works period"*) yw'r cyfnod hwnnw sy'n dechrau am 08:00 o'r gloch ar 12 Tachwedd 2012 ac yn dod i ben pan fydd yr arwyddion traffig dros dro yn cael eu symud ymaith yn barhaol;

ystyr "y darn o'r gefnffordd" (*"the length of the trunk road"*) yw'r darn hwnnw o gefnffordd yr A483 ym Mhencerrig rhwng Llanelwedd a Hawy yn Sir Powys sy'n ymestyn o ganolbwynt ei chyffordd â'r C1357 hyd at bwynt 170 o fetrau i'r de o ganolbwynt ei chyffordd â'r C1358.